**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/03366/19

John Griffiths
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

10 Rhagfyr 2019

Annwyl John,

Yn fuan byddaf yn gosod Offeryn Statudol gerbron y Cynulliad, sef *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020* sy'n cyflwyno Rheoliadau newydd a fydd yn rheoli'r canfasiad etholiadol blynyddol o 2020 ymlaen. Bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Lluniwyd y Rheoliadau newydd o ganlyniad i raglen waith ar y cyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i foderneiddio a diwygio'r canfasiad blynyddol. Bydd y Rheoliadau yn cadw elfennau cadarn y canfasiad cyfredol ond byddant yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol deilwra'r canfasiad ar gyfer aelwydydd yn eu hardal.

Gan fod y cyfrifoldeb am faterion etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Cynulliad bellach wedi ei ddatganoli, bu'n rhaid cyflwyno deddfwriaeth ym mhob un o'r tair gweinyddiaeth er mwyn diwygio'r canfasiad. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud hynny drwy gyflwyno *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) 2019* a wnaed ar 4 Tachwedd 2019.

Cyflwynir yr Offeryn Statudol i ategu'r gyfres o ddiwygiadau etholiadol y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried eisoes fel y nodwyd yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwella cyfraddau cofrestru etholwyr; cofrestru heb wneud cais a'r Gronfa Ddata o Wybodaeth Cofrestru Etholiadol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ddarpariaeth a wneir yn yr Offeryn Statudol hefyd yn gyson ag estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a nodwyd yn y Bil ac yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a basiwyd yn y Senedd ar 27 Tachwedd.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government